Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Bydd y nodiadau hyn yn eich cynorthwyo i gwblhau tudalennau *Senedd* eich ffurflen dreth. Mae'r tudalennau *Senedd* yn cwmpasu eich incwm Seneddol yn unig; gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn cwblhau tudalennau eraill sy'n briodol i'ch amgylchiadau.

Mae'r canllaw *MPs*, *Ministers and Tax* yn cynnwys gwybodaeth gefndirol a allai fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae ar gael yn **www.hmrc.gov.uk**

Os oes gennych gwestiwn ynghylch mater nad yw wedi ei gynnwys yn y canllaw *MPs, Ministers and Tax* neu'r nodiadau hyn, yna ffoniwch **0292 032 5209** neu ffacs **0292 076 5642**.

O Mai 2010 pan etholwyd y Senedd newydd, cymerwyd cyfrifoldeb am dalu cyflogau a threuliau ASau gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) o'r Adran Adnoddau. Felly, mae'r nodiadau hyn yn cwmpasu'r trefniadau a oedd yn bodoli cyn ac ar ôl Etholiad Cyffredinol Mai 2010.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, er enghraifft:

- eich P60, ffurflen yr Adran Adnoddau, ffurflen yr IPSA neu ffurflen Adran y Llywodraeth sy'n dangos manylion cyflog a threth am y flwyddyn
- eich Hysbysiadau Cod TWE ar gyfer 2010-11 a 2011-12
- ffurflen P11D neu ddatganiad cyfatebol o'r Adran Adnoddau, yr IPSA neu Adran y Llywodraeth sy'n rhoi manylion unrhyw fuddiannau a threuliau a gawsoch yn y flwyddyn
- derbynebion ar gyfer unrhyw dreuliau caniataol a dalwyd gennych
- unrhyw rai o'r taflenni cymorth y credwch sydd eu hangen arnoch.

Defnyddir y gair 'swydd' yn y Nodiadau hyn i gynnwys y swydd a ddelir fel AS, fel AS a Gweinidog, neu fel Gweinidog yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae 'P11D' yn golygu P11D, P9D neu wybodaeth gyfatebol.

Os oeddech yn eich swydd ar 5 Ebrill 2011

Dylai eich P60 ddangos cyfanswm y cyflog a'r dreth o'ch swydd (yn ogystal ag o gyflogaethau blaenorol yn ystod y flwyddyn). Dylai eich P45 (Rhan 1A), os oedd gennych un, ddangos hefyd y cyflog o gyflogaethau blaenorol. Peidiwch â chynnwys yn y tudalennau hyn, unrhyw symiau ar eich P60, neu P45 (Rhan 1A) o gyflogaethau ac eithrio o'ch swydd fel AS neu fel Gweinidog.

Os oeddech yn Aelod Seneddol

Cwblhewch un copi o'r tudalennau *Senedd*.

Os oeddech yn Weinidog yn Nhŷ'r Cyffredin

Cwblhewch un copi o'r tudalennau *Senedd* ar gyfer eich incwm fel AS ac un ar gyfer eich swydd Weinidogaethol - ond gweler isod os newidioch swydd.

Os oeddech yn Weinidog yn Nhŷ'r Arglwyddi

Cwblhewch un copi o'r tudalennau *Senedd* - ond gweler isod os newidioch swydd.

Os newidioch eich swydd yn ystod y flwyddyn

Cwblhewch gopi ar wahân o'r tudalennau *Senedd* ar gyfer pob swydd y derbynioch unrhyw incwm ohoni yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011. Does dim angen i chi gwblhau tudalennau Senedd ar wahân, dim ond oherwydd eich bod wedi eich ailethol yn Etholiad Cyffredinol Mai 2010.

Incwm o swydd

Blwch 1 *Taliadau o P60 (neu P45 neu slipiau cyflog) – cyn didynnu treth*

Nodwch yr arian a gawsoch fel AS neu fel Gweinidog.

Bydd eich P60 yn dangos ffigurau ar gyfer cyflog a threth o'r swydd roeddech ynddi ar 5 Ebrill 2011. Os oedd gennych fwy nag un swydd, gall y ffurflen gynnwys ail gyfres o fanylion cyflog a threth hefyd ar gyfer eich swyddi blaenorol. Ychwanegir y manylion at ei gilydd yn y ffigurau ar eich P60. Efallai y bydd angen i chi gyfeirio at gofnodion eraill (fel slipiau cyflog, ffurflen P45 (Rhan 1A), neu ddatganiadau o fuddiant trethadwy) er mwyn cyfrifo'r ffigurau ar gyfer y cyflog o swyddi blaenorol i'w rhoi ym mhob copi o'r tudalennau *Senedd* a gwblhewch (un ar gyfer pob swydd). Os oeddech yn ddi-waith yn ystod y flwyddyn, bydd y ffigur ar eich P60 yn cynnwys unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dal Analluogrwydd a gawsoch. Peidiwch â chynnwys y rhain yn y tudalennau *Senedd* (neu unrhyw gopïau o'r tudalennau *Cyflogaeth* a gwblhewch). Yn lle hynny, dylech nodi unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith ym mlwch 14 ac unrhyw Fudd-dal Analluogrwydd trethadwy ym mlychau 12 a 13 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth.

Eglurir rhai o'r eitemau mwyaf cyffredin i'w cynnwys yn yr adran 'Taliadau ariannol' isod. Os cawsoch eitem neu daliad mewn cysylltiad â'ch swydd ac os nad ydych yn siŵr a ddylech ei gynnwys ai peidio, cysylltwch â ni neu'ch ymgynghorydd treth am gyngor.

Rheol gyffredinol

Dylech gynnwys ym mlwch 1, yr holl incwm a gawsoch yn y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill 2011 fel AS neu fel Gweinidog hyd yn oed os oeddech wedi ei ennill mewn blwyddyn dreth gynharach neu os cawsoch eich talu am waith sydd heb ei wneud eto. Dylech drin yr incwm hwn fel petaech wedi ei dderbyn ar y cynharaf o'r canlynol:

- y dyddiad pan wnaed y taliad, neu'r taliad ar gyfrif, neu
- y dyddiad pan oedd hawl gennych gael eich talu.

Bydd hyn yn wir hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, neu os na chawsoch unrhyw daliad gwirioneddol am eich bod wedi trefnu i'r swm a oedd yn ddyledus i chi gael ei gymhwyso mewn rhyw ffordd arall yn lle hynny.

Taliadau ariannol

Mae'n rhaid i chi nodi'r swm cyn didynnu unrhyw dreuliau yr hoffech wneud cais amdanynt, ar gyfer pob eitem. **Dylech** gynnwys y taliadau ariannol canlynol ym mlwch 1:

- eich cyflog fel AS neu fel Gweinidog
- Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol a Thâl Mabwysiadu Statudol ac eithrio pan gewch eich talu gennym ni
- taliadau gan drydydd parti pan wneir y taliad fel gwobr am wasanaethau a roddir neu sydd eto i'w rhoi yn rhinwedd eich swydd fel AS neu fel Gweinidog.

Ni ddylech gynnwys yr eitemau canlynol ym mlwch 1:

- buddiannau a thaliadau am dreuliau a gawsoch. Nodwch y rhain ym mlychau 3 i 9 yn lle hynny
- cyfandaliadau a dalwyd mewn cysylltiad â therfynu swydd, ymddeoliad neu farwolaeth. Nodwch y rhain ym mlychau 3 i 9 yn yr adran 'Cynllun cyfranddaliadau a chyfandaliadau cyflogaeth' ar dudalen Ai 2 o'r tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*
- taliadau a wnaed i'r Cynllun Pensiwn Seneddol.

Os ydych wedi derbyn cyfandaliad, er enghraifft Grant Ailsefydlu, a gafodd ei drethu a'i gynnwys ar eich P45, ac rydych wedi ei nodi yn y blychau ar gyfer cyfandaliadau ar eich ffurflen dreth, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddidynnu o'r ffigur a roddwch ym mlwch 1.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 2 ***Treth a ddidynnwyd o flwch 1***

Nodwch swm unrhyw dreth a ddidynnwyd o'r symiau a nodir ym mlwch 1, ym mlwch 2.

Dangosir y dreth a ddidynnwyd ar eich ffurflen P60 neu P45(Rhan 1A). Nodwch y ffigur hwn ym mlwch 2 hyd yn oed os oedd yn rhaid i chi gwblhau blychau 3 i 9 o'r adran 'Cynllun Cyfranddaliadau a chyfandaliadau cyflogaeth' ar dudalen Ai 2 y tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol* i wneud addasiad ym mlwch 1.

Buddiannau o'ch swydd

Bydd yr Adran Adnoddau, yr IPSA neu eich Adran o'r Llywodraeth yn anfon atom fanylion yr holl fuddiannau a threuliau trethadwy a gawsoch yn rhinwedd eich swydd. Byddant yn rhoi'r manylion hyn i chi hefyd.

Ni fydd y manylion a gewch yn cynnwys unrhyw eitemau y mae gan yr Adran Adnoddau, yr IPSA neu eich Adran o'r Llywodraeth oddefeb ar eu cyfer. Peidiwch â chyfeirio at yr eitemau hyn. (Trefniant yw goddefeb y gall yr Adran Adnoddau, yr IPSA neu eich Adran o'r Llywodraeth fod wedi ei wneud gyda ni. Mae'n eich arbed rhag cynnwys buddiant neu daliad treuliau a gewch fel AS neu fel Gweinidog fel incwm ac yn eich arbed rhag gwneud cais cyfatebol am y treuliau caniataol a delir gennych.)

Blwch 3 ***Teithio, gwarantau teithio a thalebau***

Mae'r IPSA yn darparu cerdyn credyd ar gyfer prynu tocynnau trên tra'r oedd yr Adran Adnoddau yn darparu gwarantau.

Mae eich incwm Seneddol yn cynnwys gwerth unrhyw dalebau a ddarperir i chi (neu i'ch teulu neu eich aelwyd) yn rhinwedd eich swydd fel AS.

Pan fyddwch yn defnyddio'r cerdyn credyd a ddarperir gan yr IPSA neu'r gwarantau ar gyfer teithio mewn trên, ar y môr neu wrth hedfan a ddarparwyd gan yr Adran Adnoddau bydd yr IPSA neu'r Adran Adnoddau yn dweud wrthym gost unrhyw deithiau nad ydynt yn amlwg yn deithiau busnes. Byddant yn rhoi'r wybodaeth hon i chi hefyd. Cynhwysir yr holl dalebau a ddarparwyd i chi ar gyfer teithiau busnes mewn 'goddefeb'; felly peidiwch â'u nodi ar eich ffurflen dreth.

Nodwch y ffigur a roddwyd i chi gan yr IPSA neu'r Adran Adnoddau ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â busnes a thaliadau cynhaliaeth sydd ynghlwm wrthynt ym mlwch 3. Os credwch fod y ffigurau hyn yn cynnwys mwy na'ch teithiau preifat, gallwch hawlio'r swm mewn perthynas â theithiau busnes ym mlwch 10. Os hoffech eglurhad pellach cysylltwch â ni neu'ch ymgynghorydd treth.

Blwch 4 ***Llety ac eithrio Gwariant Personol ar Lety Ychwanegol***

Peidiwch â nodi unrhyw Dreuliau Llety a dalwyd gan yr IPSA oherwydd bod y rhain wedi eu heithrio rhag treth. Mae'r un peth yn wir am Wariant Personol ar Lety Ychwanegol a dalwyd gan yr Adran Adnoddau.

Mae eich incwm Seneddol yn cynnwys gwerth unrhyw lety a gwasanaethau ategol (er enghraifft gwres, golau, glanhau) a gewch chi (neu eich teulu neu eich aelwyd) yn rhinwedd eich swydd fel AS. (Dylai unrhyw lety a gewch yn rhinwedd swydd neu gyflogaeth arall gael ei nodi ar dudalennau ar wahân sy'n cwmpasu'r swydd neu'r gyflogaeth honno.) Caiff gwerth rhai mathau o lety eu heithrio rhag treth, er enghraifft, os oes bygythiad arbennig i'ch diogelwch ac os darperir y llety i chi fel rhan o drefniadau diogelwch arbennig. Os ydych wedi cytuno â ni fod eich llety wedi'i eithrio, yna oni bai fod amgylchiadau wedi newid, peidiwch â nodi unrhyw beth ym mlwch 4. Fodd bynnag, codir treth ar y gwasanaethau ategol. Cyfyngir hyn fel arfer i 10% o gyflog y swydd dan sylw. Nodwch y ffigur hwn ym mlwch 4.

Blwch 5 ***Gwariant Gweinyddol Cyffredinol (GAE) a Gwariant ar Rhent Swyddfa'r Etholaeth (CORE)***

Nodwch symiau a ad-dalwyd neu a dalwyd i chi, neu a dalwyd ar eich rhan gan yr IPSA mewn perthynas â GAE a CORE. Mae'r taliadau hyn yn cwmpasu treuliau'r swyddfa fel gwres, golau, galwadau ffôn, post a deunyddiau ysgrifennu.

Peidiwch â nodi unrhyw beth a dalwyd fel rhan o'ch GAE neu CORE ar gyfer eitemau cyfalaf megis offer swyddfa gan fod hyn wedi ei gwmpasu'n llwyr gan Lwfans Buddsoddi Blynyddol (gweler y nodiadau ynglŷn â 'Lwfansau Cyfalaf' ar dudalen MPN 7).

Dylech hefyd nodi ym mlwch 5, y swm a ad-dalwyd neu a dalwyd i chi, neu a dalwyd ar eich rhan gan yr Adran Adnoddau fel Gwariant Gweinyddol a Swyddfa neu Wariant Cyfathrebu. Lle mae GAE a CORE yn y cwestiwn, peidiwch â chynnwys unrhyw beth a dalwyd am eitemau cyfalaf megis offer swyddfa. Dylech hawlio unrhyw dreuliau a ganiateir at ddibenion treth drwy lenwi blychau 10 i 13.

Peidiwch â chynnwys manylion am wariant ar gyfer staffio, sy'n cynnwys costau cyflogi staff i'ch cynorthwyo i gyflawni eich swyddogaethau seneddol. Mae hyn yn cynnwys cyflogau, cyfraniadau pensiwn a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y cyflogwr. Mae'r IPSA yn gwneud y taliadau hyn yn uniongyrchol ar eich rhan. Ni ddylech ychwaith hawlio unrhyw lwfans am y symiau hyn. Maent yn agored i dreth ac yn ganiataol mewn symiau o'r unfath ac rydym wedi cytuno nad oes angen eu cynnwys ar eich ffurflen dreth.

Mae hyn yn wir hefyd am daliadau a wnaed ar gyfer cyflogau a CYG gan yr Adran Adnoddau neu i symiau a dalwyd gan yr Adran Adnoddau tuag at bensiynau ar gyfer ysgrifenyddion a chynorthwywyr ymchwil.

Blwch 6 ***Taliad wrth gefn***

Nodwch unrhyw symiau mewn perthynas â chyflawni eich swyddogaethau seneddol y mae'r IPSA yn ad-dalu ar sail a ystyrir yn eithriad. Dylech hawlio rhyddhad am unrhyw ran o'r gwariant hwn a dalwyd er mwyn cyflawni eich dyletswyddau yn gyfan gwbl, yn hollol ac o angenrheidrwydd fel Aelod ym mlwch 11.

Dylech hefyd nodi ym mlwch 6, y symiau a dalwyd ar eich rhan gan yr Adran Adnoddau mewn perthynas â staff dros dro (Lwfans Ysgrifenyddol Dros Dro). Dylech gynnwys hefyd unrhyw daliadau a ad-delir i chi gan yr IPSA ar ffurf swm wrth gefn ar gyfer staff a gyflogwch yn uniongyrchol neu ar gyfer gwasanaethau a brynwyd a chronfa staffio.

Blwch 7 ***Cronfa Cymorth Ariannol ac ad-daliadau ariannol eraill***

Os cewch daliadau gan y Gronfa Cymorth Ariannol fel Llefarydd yr Wrthblaid, bydd y taliadau'n agored i dreth fel rhan o'ch incwm (yn yr un modd â'r GAE). Nodwch y swm ym mlwch 7. (Gellir hawlio unrhyw dreuliau caniataol a dalwch wrth gyflawni eich dyletswyddau Seneddol ym mlychau 10 i 13). Nodwch ym mlwch 7 unrhyw ad-daliadau a wnaed i chi gan yr Adran Adnoddau neu IPSA ar gyfer costau llogi cerbydau, costau tacsis neu unrhyw ad-daliadau trethadwy na chafodd eu nodi mewn man arall yn y tudalennau hyn. Gellir gwneud cais am ryddhad treth ar gyfer y taliadau hyn ym mlychau 10 i 13.

Blwch 8 ***Pob buddiant arall***

Dylai'r Adran Adnoddau, IPSA neu eich Adran chi o'r Llywodraeth fod wedi rhoi manylion i chi am unrhyw fuddiannau eraill a gawsoch. Nodwch ym mlwch 8 gyfanswm cyfwerth mewn arian unrhyw fuddiannau eraill a gawsoch fel AS neu fel Gweinidog nas cynhwyswyd gennych mewn man arall, er enghraifft ym mlychau 3 i 7.

Cyfwerth mewn arian unrhyw fuddiannau eraill

Pennir y cyfwerth mewn arian mewn ffyrdd gwahanol, yn unol â'r math o fuddiant.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Asedion (ac eithrio tir a cherbydau modur) a ddarperir at ddefnydd preifat

Pan fo'r ased wedi bod ar gael trwy gydol y flwyddyn bydd y cyfwerth mewn arian fel arfer yn seiliedig ar:

- 20% o'i werth ar y farchnad pan gafodd ei ddefnyddio gyntaf i ddarparu buddiant, yn ogystal â
- treuliau (ac eithrio'r gost o'i gaffael) a dalwyd gennych mewn cysylltiad ag ef, na fyddent wedi eu talu petai'r buddiant heb gael ei ddarparu.

Os yw'r cyfanswm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un aelod bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran o'r swm llawn. Caiff y cyfwerth mewn arian ei ostwng gan unrhyw swm a ad-delir i'r darparwr yn gyfnewid am y buddiant. Am fwy o wybodaeth, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

Pob buddiant arall

Y cyfwerth mewn arian fel arfer fydd yr hyn gostiodd y buddiant i'r person a'i ddarparodd (llai unrhyw swm a ad-dalwyd i'r darparwr). Os yw'r swm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un aelod bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran o'r swm llawn. Am fwy o wybodaeth gweler llyfryn 480, *Expenses and benefits – A tax guide* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Dylech sicrhau eich bod yn cynnwys buddiant car, neu gar a thanwydd a oedd ar gael i chi yn rhinwedd eich swydd fel AS ym mlwch 8. Peidiwch â chynnwys buddiannau o unrhyw swydd neu gyflogaeth nad yw'n ymwneud â'r Senedd. Nodwch y rhain ar dudalennau *Cyflogaeth* eich ffurflen dreth.

Rhestrir rhai o'r buddiannau mwyaf cyffredin yn y Daflen Waith isod i'ch helpu i bennu'r cyfanswm ar gyfer blwch 8.

Taflen Waith ar gyfer blwch 8

Asedion a ddarparwyd at ddefnydd preifat		£
Ffôn/ffonau cartref		£
Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol		£
Nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd		£
Gofal plant a gefnogir gan gyflogwr (mewn rhai amgylchiadau **ni** chodir treth am y buddiant hwn - gweler llyfryn 480)		£
Cymorth addysgol a ddarparwyd (mewn rhai amgylchiadau **ni** chodir treth am y buddiant hwn - gweler llyfryn 480)		£
Pob buddiant arall		£
Cyfanswm *Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 8 yn nhudalennau'r Senedd*	A	£

Blwch 9 ***Taliadau mantoli***

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer dibrisiant blynyddol ar offer sydd angen i chi ei ddefnyddio wrth gyflawni eich dyletswyddau. Gelwir y rhyddhad hwn yn 'lwfansau cyfalaf'. Weithiau, pan werthir neu pan roddir eitem o offer am ddim, caiff peth o'r lwfansau cyfalaf a gawsoch eu hadennill. Gelwir hyn yn 'dâl mantoli'.

Rhoddir eglurhad manwl o'r ffordd y caiff 'lwfansau cyfalaf' a 'taliadau mantoli' eu cyfrifo yn y nodiadau hyn yn yr adran 'Beth yw lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli?' sy'n dechrau ar dudalen MPN 7. Os bydd angen arweiniad pellach arnoch, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

Treuliau'r swydd a dalwyd gennych

Mae'r adran hon yn egluro'r rheolau ar gyfer gwneud cais am dreuliau a dalwyd gennych o anghenraid wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Sylwer oherwydd bod yr Adran Adnoddau neu'r IPSA yn gwneud taliadau ar eich rhan, neu eich ad-dalu am dreuliau, nid yw'n golygu o anghenraid y gallwch hawlio'r treuliau at ddibenion treth. Pennir y treuliau a delir neu a ad-delir gan yr Adran Adnoddau neu'r IPSA gan eu rheolau. Mae'r treuliau sydd wedi eu heithrio rhag treth neu y gellir eu didynnu, at ddibenion treth a CYG yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth Treth Incwm a CYG. Nid yw'r rheolau a weithredir gan yr Adran Adnoddau neu'r IPSA bob amser yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth dreth berthnasol.

Goddefebau

Peidiwch â chynnwys unrhyw dreuliau a dalwyd gennych yn eich cais:

- os gallwch eu hawlio'n ôl o'r Adran Adnoddau, IPSA neu eich adran o'r Llywodraeth, ac
- os cwmpesir y treuliau gan oddefeb.

Os ydych yn ansicr a oes gan yr Adran Adnoddau, IPSA neu eich adran o'r Llywodraeth oddefeb dylech ofyn iddynt am fanylion. Gweler hefyd yr adran dan y pennawd 'Buddiannau o'ch swydd' ar dudalen MPN 3.

Fodd bynnag, os talwyd gwariant caniataol gennych sy'n fwy na'r swm a gwmpesir gan yr oddefeb efallai y gallech wneud cais am ddidyniad ar gyfer y swm gormodol.

Blwch 10 ***Gwarantau teithio***

Pan delir am deithiau trên, teithiau ar y môr neu deithiau hedfan drwy ddefnyddio gwarantau teithio neu gerdyn credyd a ddarparwyd gan yr IPSA bydd yr Adran Adnoddau neu'r IPSA yn eu harchwilio.

Bydd yr Adran Adnoddau neu'r IPSA yn dweud wrthych faint oedd cost y teithiau nad ydynt yn amlwg yn deithiau busnes. Os credwch fod y swm yn anghywir – ac yn cynnwys mwy na chost teithiau preifat – dylech nodi'r swm y credwch sy'n gysylltiedig â theithiau busnes ym mlwch 10.

Blwch 11 ***Cymorth ysgrifenyddol a chlercaidd, a chymorth ymchwil***

Bydd y gost o gyflogi cynorthwywyr ysgrifenyddol, clercaidd a chymorth ymchwil a delir o anghenraid wrth ymgymryd â'ch dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog wedi ei thalu gan yr Adran Adnoddau neu'r IPSA. Mae'r symiau hyn yn agored i dreth ac yn ganiataol mewn symiau tebyg, ac rydym wedi cytuno nad oes angen i chi eu cynnwys yn eich ffurflen dreth.

Dylech fodd bynnag, hawlio unrhyw swm a dalwyd o'ch arian eich hun neu allan o'r Gronfa Cymorth Ariannol ar gyfer staff a gyflogir gennych yn uniongyrchol neu ar gyfer gwasanaethau a brynwyd a chronfa staffio. Mae hyn yn cynnwys taliadau y cewch Lwfans Ysgrifenyddol Dros Dro ar eu cyfer neu y mae'r IPSA yn eich ad-dalu'n uniongyrchol fel taliad wrth gefn. Nodwch y symiau hyn ym mlwch 11.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 12 ***Treuliau swyddfa***

Nodwch y cyfanswm a wariwyd yn ystod y flwyddyn i gynnal eich swyddfa o ddydd i ddydd, er enghraifft, ar wres, golau, ffôn, post, deunyddiau ysgrifennu ym mlwch 12. Yn aml bydd y ffigur gyfwerth â'r symiau a dalwyd i chi neu a dalwyd ar eich rhan gan yr Adran Adnoddau neu'r IPSA ar gyfer y mathau hynny o eitemau. Byddant yn rhoi manylion i chi.

Os ydych wedi talu symiau heblaw drwy'r Adran Adnoddau neu'r IPSA yn ystod y flwyddyn, rhowch gyfanswm y symiau hyn ym mlwch 12. Fodd bynnag, ni ddylech gynnwys unrhyw beth ym mlwch 12 sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ag eiddo rydych wedi gwneud cais ar gyfer Gwariant Personol ar Lety Ychwanegol i'r Adran Adnoddau neu ar gyfer Treuliau Llety i'r IPSA.

Blwch 13 ***Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf***

Nodwch gyfanswm unrhyw dreuliau eraill a lwfansau cyfalaf eraill ym mlwch 13.

Treuliau eraill

Gallwch ond wneud cais am y treuliau y byddai pob AS neu Weindog yn gorfod eu talu. Mae'n rhaid i'r treuliau gael eu talu wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd yn wirioneddol. Nid yw treuliau a allai eich rhoi mewn sefyllfa i gyflawni eich dyletswyddau swyddogol, yn hytrach na'u cyflawni mewn gwirionedd, yn ganiataol.

Cafodd y rhan fwyaf o'r treuliau y gallwch wneud cais amdanynt eu hystyried eisoes. Fodd bynnag, efallai y gallech wneud cais am dreuliau eraill a delir gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau, er enghraifft, taliadau a nodwyd gennych ym mlwch 7 ac sy'n cwrdd â'r amodau cymhwyso ar gyfer rhyddhad treth. Efallai eich bod wedi dod i gytundeb â ni ynglŷn â cheisiadau ar gyfer eitemau eraill yn y gorffennol. Os felly, dylech gyfrifo swm y treuliau caniataol ar y sail gytûn. Os ydych yn ansicr o'r hyn y gallech eu hawlio dylech ofyn i ni am gymorth cyn cwblhau blwch 13.

Lwfansau cyfalaf

Bydd lwfansau cyfalaf fel arfer ar gael ar gyfer y gost cyfalaf i chi o'r offer y mae'n rhaid i chi eu darparu wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Does dim lwfans ar gael ar gyfer offer a ddarparwyd i chi o dan drefniadau'r Tŷ i roi offer Technoleg Gwybodaeth neu asedion a brynwch ar gyfer eu gosod neu eu defnyddio mewn preswylfan. Yn ogystal â hyn, ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer eich cerbyd modur. Mae'r adran dros y ddalen yn sôn wrthych sut i'w cyfrifo.

Os byddwch yn dechrau neu'n gorffen defnyddio eitem ar gyfer eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog yn ystod y flwyddyn, cyfrifwch y lwfansau cyfalaf fel petaech wedi prynu neu werthu'r eitem ar y dyddiad hwnnw, gan ddefnyddio gwerth y farchnad ar yr adeg honno. Mae Taflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn cynnwys fwy o gyngor ac enghreifftiau.

Beth yw lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli?

Mae'r adran hon yn sôn wrthych sut i gyfrifo eich lwfansau cyfalaf a'ch taliadau mantoli sy'n mynd ym mlychau 13 a 9 ar dudalennau'r *Senedd*. Mae'r enghreifftiau ar dudalennau MPN 9 a 10 yn dangos yr hyn ddylech ei wneud.

Mae lwfansau cyfalaf yn ddidyniad o'ch incwm trethadwy. Maen nhw'n lwfans ar gyfer dibrisiad yng ngwerth asedion neu gyfarpar y mae'n rhaid i chi eu darparu er mwyn ymgymryd â'ch dyletswyddau fel AS ac/neu fel Gweinidog. Cynhwysir lwfansau cyfalaf ym mlwch 13 yn nhudalennau *Senedd* eich ffurflen dreth.

Mae taliadau mantoli yn ychwanegiad at eich incwm trethadwy. Byddant yn codi weithiau pan werthwch asedion neu offer yr oeddech yn hawlio lwfansau cyfalaf ar eu cyfer yn flaenorol, neu os byddwch yn peidio â'u defnyddio ar gyfer eich dyletswyddau swyddogol. Nodir taliadau mantoli ym mlwch 9 ar dudalennau'r *Senedd*.

Pa dreuliau sy'n cymhwyso?

A siarad yn gyffredinol, gall unrhyw beth a ddefnyddiwch i gyflawni eich dyletswyddau swyddogol gydag oes ddefnyddiol sydd o leiaf yn ddwy flynedd gymhwyso am lwfans. Rhaid iddynt fod yn bethau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eich dyletswyddau. Mae offer swyddfa megis desgiau a chypyrddau cadw ffeiliau yn enghreifftiau nodweddiadol.

Ystyrir asedion ac offer yn 'angenrheidiol' os na allech wneud eich dyletswyddau swyddogol hebddynt. Mae'n rhaid eu bod yn bethau y byddai'n rhaid i bob AS ac/neu Weinidog eu darparu.

Ond ni allwch hawlio lwfans cyfalaf am gar, beic modur neu feic gan fod cyfraddau'r lwfansau teithio cymeradwy yn cynnwys elfen ar gyfer dibrisiant.

Pa fathau o lwfansau cyfalaf sydd ar gael?

Mae'n debyg y bydd tri math o lwfans cyfalaf yn berthnasol i chi:
- Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB)
- lwfans ar bapur
- lwfans cronfeydd bychain.

(i) Lwfans Buddsoddi Blynyddol

Gallwch hawlio LBB ar gyfer unrhyw gyfarpar a brynwyd (ond nid ceir, beiciau modur neu feiciau) a wnaed yn 2010-11 hyd at swm blynyddol o £100,000.

Peidiwch â chynnwys unrhyw wariant cyfalaf a ad-dalwyd i chi ar ôl 6 Ebrill 2008 gan yr Adran Adnoddau o dan Wariant Gweinyddol a Swyddfa neu'r Lwfans Cyfathrebu neu gan yr IPSA o dan GAE neu CORE. Byddwn yn tybio eich bod wedi hawlio LBB yn erbyn unrhyw symiau a ad-dalwyd ar gyfer eitemau cyfalaf oherwydd nad yw'r eitemau hynny wedi eu cynnwys fel incwm trethadwy ym mlwch 5 y tudalennau *Senedd* yn eich Ffurflen Dreth. Os nad ydych am hawlio'r LBB, dylech gynnwys y swm ar gyfer Gwariant Gweinyddol a Swyddfa y Lwfans Cyfathrebu, GAE neu CORE (fel y bo'n briodol) a dalwyd am eitemau cyfalaf ym mlwch 5 ac esboniwch y sefyllfa yn y blwch ar gyfer 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen MP 2 y tudalennau *Senedd*.

Pan (fel eithriad) fo'r cyfanswm, gan gynnwys unrhyw wariant cyfalaf a ad-dalwyd gan yr Adran Adnoddau neu'r IPSA, yn fwy na £100,000, yna gallwch hawlio hyd at £100,000 o'r cyfanswm fel LBB, gyda'r gweddill yn cael ei drin o dan amodau lwfans ar bapur, fel yr esbonnir ar y dudalen nesaf.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

(ii) Lwfans ar bapur

Os ydy cyfanswm yr hyn a wariwyd gennych yn fwy na £100,000, caiff unrhyw swm sydd dros ben ei roi mewn 'cronfa'. Mae'r gronfa hon yn cynrychioli cyfanswm eich gwariant cyfalaf ar ôl didynnu eich LBB, ac ar ôl didynnu o'r gronfa unrhyw arian y gallech fod wedi ei dderbyn petaech wedi gwerthu unrhyw eitemau a brynwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Efallai y bydd gennych gronfa ar gyfer gwariant pan na chafwyd rhyddhad, ac a gariwyd ymlaen o flwyddyn gynharach. Os felly, ychwanegwch wariant eleni, ar ôl didynnu'r LBB a derbyniadau gwerthiant ar gyfer y flwyddyn hon, at y ffigur sydd gennych yn y gronfa ar gyfer y flwyddyn flaenorol, i bennu cyfanswm eich cronfa newydd.

Gallwch hawlio 20% o'r swm net sydd yn eich 'cronfa' bob blwyddyn – gelwir hyn yn 'lwfans ar bapur' (LAB) neu 'written down allowance' (WDA) yn Saesneg.

(iii) Cronfeydd bychain sy'n llai na £1,000

Pan fo'r swm mewn cronfa o'r fath yn £1,000 neu lai, gallwch hawlio'r swm llawn fel 'lwfans cronfeydd bychain' (SPA).

Enghraifft 1

Mae John wedi bod yn AS am ddwy flynedd. Yn 2010-11 gwariodd £500 ar gyfarpar angenrheidiol nad yw wedi ei ad-dalu gan yr IPSA. Mae ganddo gronfa o £700 a ddygwyd ymlaen o 2009-10.

Gall hawlio'r canlynol:

- y £500 llawn fel Lwfans Buddsoddi Blynyddol, ac
- y gronfa o £700 a ddygwyd ymlaen fel lwfans cronfeydd bychain.

Beth petawn i'n cael fy ethol yn AS yn ystod y flwyddyn?

Os nad ydych wedi bod yn AS am flwyddyn gyfan, neu os peidioch â bod yn AS yn ystod y flwyddyn, caiff eich LBB, LAB a'r Lwfans cronfeydd bychain eu gostwng yn unol â hynny.

Enghraifft 2

Etholwyd Jane yn AS ar 7 Mai 2010. Mae hyn yn golygu ei bod yn AS am 334 diwrnod o'r flwyddyn 2009-10. Gall hi hawlio $^{334}/_{365}$ o'r £100,000 o'r Lwfans Buddsoddi Blynyddol neu £91,506

Os prynwch ased neu eitem o gyfarpar rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn dreth ac rydych wedi defnyddio eich LBB, gallwch hawlio'r lwfans ar bapur llawn o 20% o hyd ond dylai hwn hefyd gael ei ostwng yn gyfatebol.

Beth petawn i'n defnyddio eitem yn rhannol at ddyletswyddau swyddogol?

Os defnyddiwch yr eitem yn rhannol yn unig ar gyfer dyletswyddau swyddogol, caiff y lwfans y gallwch ei hawlio ei ostwng mewn cyfrannedd â'r defnydd busnes. Er enghraifft, os defnyddiwyd eitem benodol ar gyfer busnes swyddogol am dri chwarter o'r amser ac un chwarter at ddefnydd preifat, gallech hawlio dri chwarter y lwfans sydd ar gael.

Beth petawn yn peidio â defnyddio eitem ar gyfer gwaith neu'n peidio â bod yn AS – addasiadau mantoli?

Os yn ystod y flwyddyn rydych yn peidio â defnyddio eitem o gyfarpar ar gyfer dyletswyddau swyddogol, neu os peidiwch â bod yn AS, bydd angen i chi wneud amryw o addasiadau i'r lwfansau rydych wedi eu hawlio. Bydd yr addasiadau hyn o'r dyddiad y peidioch â defnyddio'r eitem ar gyfer gwaith neu y cafodd ei gwerthu.

Dylech gynnwys yn eich cyfrifiad derbyniadau gwerthiant (neu'r gwerth marchnad os na wnaethoch eu gwerthu) unrhyw eitemau cyfalaf y cawsoch ad-daliad ar eu cyfer yn flaenorol gan yr Adran Adnoddau naill ai fel Darpariaethau Mân Dreuliau, Gwariant Gweinyddol a Swyddfa neu Lwfans Cyfathrebu neu gan yr IPSA mewn perthynas â GAE neu CORE.

Ceir dau fath o addasiad: lwfansau mantoli a thaliadau mantoli.

(i) Lwfansau mantoli

Gallai lwfans mantoli fod yn ddyledus ar gyfer:
- asedion a chyfarpar yn y brif gronfa os peidioch â bod yn AS yn ystod y flwyddyn
- asedion neu eitemau eraill o gyfarpar os yn ystod y flwyddyn
  - gwnaethoch beidio â bod yn AS, neu
  - gwnaethoch werthu'r eitem dan sylw, neu
  - gwnaethoch orffen ei ddefnyddio ar gyfer dyletswyddau swyddogol, ond ni wnaethoch ei werthu.

Yn yr achosion hyn y lwfans sy'n ddyledus yw:
- gweddill y gwariant a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (os o gwbl), llai
- derbyniadau gwerthu'r (neu eu gwerth marchnad os na werthwyd nhw) eitem(au) ar y dyddiad y peidioch fod yn AS, neu pan orffennoch eu defnyddio at ddibenion eich dyletswyddau swyddogol.

Dylid cynnwys y swm yn eich cais ar gyfer lwfansau cyfalaf ym mlwch 13 tudalennau *Senedd* eich ffurflen dreth.

(ii) Taliadau mantoli

Os yw gwerth eitem pan gaiff ei gwaredu yn fwy na gwerth y cronfeydd, yna gallai tâl mantoli fod yn ddyledus. Mae 'tâl mantoli' yn ychwanegiad at eich incwm trethadwy a gall godi:
- os peidiwch â bod yn AS yn ystod y flwyddyn, neu
- os gwerthwyd ased, neu
- os peidiwch â defnyddio eitem at ddibenion dyletswyddau swyddogol, ond nid ydych yn ei gwerthu.

Yn yr achosion hyn y tâl mantoli sy'n ddyledus yw:
- derbyniadau gwerthu'r (neu eu gwerth marchnad os na chawsant eu gwerthu) eitem(au) ar y dyddiad y peidioch â bod yn Aelod, neu pan orffennoch eu defnyddio at ddibenion eich dyletswyddau swyddogol, llai
- gweddill y gwariant a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (os o gwbl).

Dylid nodi'r swm ym mlwch 9 tudalennau *Senedd* eich ffurflen dreth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Enghraifft 3

Peidiodd Bryn â bod yn AS ar 6 Mai 2010. Mae ganddo gronfa a ddygwyd ymlaen sy'n werth £300 ar gyfer 2009-10. Mae e'n gwaredu ei gyfarpar am £100.

Y cyfnod a ddaeth i ben 6 Mai 2010

Gwerth a ddygwyd ymlaen	£300
Llai	
Derbyniadau'r gwaredu	£100
Lwfans mantoli	£200

Mae'r canlyniad yn dangos bod lwfans mantoli o £200 i'w nodi ar ffurflen dreth 2010-11.

Enghraifft 4

Peidiodd Catrin â bod yn AS ar 6 Mai 2010. Mae ganddi gronfa a ddygwyd ymlaen sy'n werth £450 ar gyfer 2009-10. Mae hi'n gwerthu ei chyfarpar am £400 ond yn cadw'r cyfrifiadur a'r argraffydd at ei defnydd personol ei hun. Roedd y cyfrifiadur a'r argraffydd yn werth £150 pan beidiodd â bod yn AS.

Y cyfnod a ddaeth i ben 6 Mai 2010

Gwerth a ddygwyd ymlaen		£450
Llai		
Derbyniadau'r gwaredu	(£400 + £150)	£550
Lwfans mantoli		£100

Mae'r canlyniad yn dangos bod tâl mantoli o £100 i'w nodi ar ffurflen dreth 2010-11.

Cyfrifo eich bil treth

Os ydych am gyfrifo eich bil treth gofynnwch i'r Llinell Gyswllt am dudalennau *Crynodeb o'r cyfrifiad treth* a'r *nodiadau* neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Does dim blychau ar wahân ar gyfer eich incwm Seneddol yn y Daflen Waith yn y *Nodiadau ar gyfer crynodeb o'r cyfrifiad treth*. Dylech gynnwys y symiau sydd gennych ar y tudalennau *Senedd* yn y blychau ar gyfer 'Cyflogaeth' yn y *Nodiadau ar gyfer crynodeb o'r cyfrifiad treth* fel a ganlyn:

Tudalennau Senedd	***Nodiadau ar gyfer crynodeb o'r cyfrifiad treth***
Incwm (blwch 1)	nodwch hwn yn adran 1, blwch A1 (ynghyd ag unrhyw incwm arall o gyflogaeth sydd gennych).
Buddiannau (blychau 3 i 9)	ychwanegwch y symiau ym mlychau 3 i 9 at ei gilydd a nodwch y cyfanswm yn adran 1, blwch A5 (ynghyd â chyfanswm unrhyw fuddiannau cyflogaeth eraill sydd gennych).
Treuliau (blychau 10 i 13)	ychwanegwch y symiau ym mlychau 10 i 13 at ei gilydd a nodwch y cyfanswm yn adran 1, blwch A6 (ynghyd â chyfanswm unrhyw dreuliau cyflogaeth eraill sydd gennych).
Treth a ddidynnwyd (blwch 2)	dylech gynnwys hwn yn y cyfanswm yn adran 10, blwch A224 (ynghyd â chyfanswm unrhyw dreth arall a ddidynnwyd o unrhyw incwm o gyflogaeth).

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio. Dangosir unrhyw newidiadau dilynol i'r nodiadau hyn yn **www.hmrc.gov.uk**